



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

CYFEIRLYFR MODYLAU

BA ADDYSG GYNRADD GYDA SAC LEFEL 5

DISGYBLAETH ACADEMAIDD: ADDYSG GYCHWYNNOL ATHRAWON

YR ATHROFA

2018-2019

TUDALEN GYNNWYS

Rhif Tud

CYFLWYNIAD..... 1

MODYLAU 2

CYFLWYNIAD

Mae'r Cyfeiriadur Modylau hwn yn cynnwys yr holl fodylau ar gyfer Lefel 5 o fewn y rhaglen BA Addysg Gynradd gyda SAC ym mlwyddyn academiaidd 2018-2019.

Mae'r cyfeiriadur hwn yn mynd gyda'r Llawlyfr Rhaglen Astudio, a fydd yn rhoi manylion y modylau y byddwch yn eu hastudio ar gyfer eich rhaglen eleni yn yr adran 'Rhaglen Astudio'. Gall y cyfeiriadur hwn gynnwys modylau sy'n rhedeg ar raglenni astudio eraill o fewn eich Ysgol/Cyfadrn. Os oes angen cymorth arnoch i adnabod modylau eich rhaglen astudio, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Rhaglen (y mae ei enw a'i fanylion cyswllt wedi'u rhoi yn y Llawlyfr Rhaglen Astudio sy'n mynd gyda'r ddogfen hon), neu Swyddfa'r Gyfadrn berthnasol.

Mae'r Brifysgol wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth mor lawn a chywir â phosibl, ond dylech nodi ei bod yn anochel y bydd rhai mân newidiadau yn digwydd i drefniadaeth y modylau rhwng y cyfnod cynllunio ac amser addysgu'r modylau. Byddwn yn ceisio sicrhau y bydd cyn lleied o newidiadau â phosibl, ac fe gewch ddigon o rybudd o flaen llaw os bydd unrhyw newid. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe baech yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau defnyddiol y gallem eu gwneud i'r llawlyfr yn y dyfodol.

MODYLAU

COD Y MODWL: ECAD5001C
TITLE: Addysgeg ar Waith 2: Datblygu Asesu ar gyfer Dysgu
DYDDIAD: 21/03/2017

LEFEL: 5
CREDYDAU: 20

COD JACS: X100 Hyfforddi Athrawon

AMCAN(ION)

- Rhoi profiad addysgu priodol yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 i athrawon dan hyfforddiant, ynghyd â dealltwriaeth o addysgeg meddwl a dulliau o asesu yn y cyfnod cynradd.
- Hyrwyddo ymhellach ymwybyddiaeth myfyrwyr dan hyfforddiant o broffesiynoldeb, annibyniaeth ac adfyfrio o fewn addysg gynradd.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyrwr allu dangos y gallu i:

- Gyfnerthu ymhellach wybodaeth a dealltwriaeth fanwl a dyfnach o ddogfennaeth sy'n benodol i gyfnod.
- Datblygu annibyniaeth a menter o ran cynllunio, paratoi, addysgu ac asesu.
- Arddangos ymwybyddiaeth feirniadol o strategaethau a thechnegau asesu sy'n briodol i'w defnyddio yn yr ysgol gynradd.
- Cyfathrebu'n glir a defnyddio strategaethau rheoli dosbarth addas.

CYNNWYS DANGOSOL

- Yn ystod y flwyddyn academiaidd, cynhelir un bloc addysgu pum wythnos yn y Cyfnod Sylfaen a threulir cyfnod arall o bum wythnos yng Nghyfnod Allweddol Dau.
- Paratoi: cyn pob bloc addysgu, treulir cyfnod o amser gyda chydweithwyr proffesiynol yn y dosbarth a neilltuwyd cyn y cyfnod a asesir. Bydd yr athro dan hyfforddiant yn gweithio dan arweiniad Uwch Fentor neu Fentor a thiwtor y Brifysgol i gynllunio yn y tymor canolig a'r tymor byr yn unol â disgwyliadau'r Brifysgol.
- Bydd sesiynau yn y Brifysgol yn darparu arweiniad a chefnogaeth i sicrhau bod gan yr athrawon dan hyfforddiant ddealltwriaeth glir o ofynion profiadau addysgu proffesiynol.
- Bydd athrawon dan hyfforddiant yn derbyn arweiniad clir ynghylch oblygiadau moesegol gweithio gyda phlant.
- Egwyddorion a gweithdrefnau diogelu: arweiniad cynhwysfawr ynglŷn â'u rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu wrth weithio gyda phlant ac o fewn eu bywyd proffesiynol ehangach.

- Yn ystod y ddau floc addysgu, bydd yr athro dan hyfforddiant yn addysgu 50% o'r amserlen addysgu a bydd yn cael ei gefnogi a'i asesu gan staff yr ysgol a'r Brifysgol drwy gydol y cyfnod. Darperir asesiadau ffurfiannol yn rheolaidd a disgwylir i athrawon dan hyfforddiant fonitro'u cynnydd eu hun yn wythnosol.
- Gosod targedau a Datblygiad Proffesiynol: Trwy gydol y modwl, bydd disgwyl i'r athro dan hyfforddiant gasglu gwybodaeth yn ei Bortffolio Datblygiad Proffesiynol i ddynodi cynnydd tuag at gyflawni Safonau SAC 25/2009.
- Archwiliad o ddamcaniaethau allweddol ynghylch datblygu sgiliau meddwl plant – megis model McGuinness o drwytho a chyfoethogi, ac archwiliad a gwerthusiad o adnoddau allweddol a ddefnyddir gan ymarferwyr dosbarth i hyrwyddo meddwl effeithiol.
- Ffocws manwl ar gefndir, natur ac effaith yr agenda asesu ar gyfer dysgu. Bydd athrawon dan hyfforddiant yn ystyried tystiolaeth o ymchwil, e.e. Hattie (2009); Black a Wiliam (1998); ac astudiaethau cymharol diweddar.
- Bydd athrawon dan hyfforddiant yn ystyried manteision a materion moesegol yn ymwneud â'r defnydd o gadw cofnodion digidol, strategaethau arsylwi a chadw cofnodion ysgrifenedig.
- Bydd myfyrwyr yn archwilio'r rhesymwaith dros wneud dysgu'n 'weladwy' trwy astudiaethau achos, megis y defnydd o ddogfennaeth mewn lleoliadau Reggio Emilia, y Prosiectau Meddwl Gweledol o Brifysgol Harvard a gwaith Ferre Laevers.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Bydd darlithoedd yn cyflwyno'r myfyrwyr i'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r arferion. Lle bo hynny'n berthnasol, gwahoddir siaradwyr allanol i annerch y garfan.

Nodwedd bwysig o'r modwl fydd y profiad addysgu proffesiynol, gyda'r athro dan hyfforddiant yn cael ei annog i weithio tuag at y Safonau Statws Athro Cymwysedig, gan gadw cofnodion trylwyr o waith cynllunio, cyflwyno ac asesu, ynghyd ag adfyfrio parhaus a chasglu tystiolaeth drwy gydol cyfnod y lleoliad.

O ddechrau'r lleoliad cefnogir pob athro dan hyfforddiant yn unigol gan diwtor Prifysgol a fydd yn monitro cynnydd o ran cynllunio a pharatoi ac a fydd ar gael i gynorthwyo'r myfyriwr.

Bydd y mentor/athro dosbarth yn yr ysgol a thiwtor Prifysgol yn arsylwi'n rheolaidd ar gynnydd. Bydd cymedrolwr yn y Brifysgol yn cadw trosolwg o safonau'r garfan gyfan.

Dyrennir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	37	19%
Dysgu annibynnol	25	12%
Dysgu drwy leoliadau	138	69%
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Profiad Addysgu Proffesiynol – lleoliad a dogfennaeth

Asesir athrawon dan hyfforddiant yn erbyn Safonau Statws Athro Cymwysedig Lefel 5 (Cylchlythyr 25/2009 Llywodraeth Cymru). Ffurfir barn grynodol ar gyfer pob un o gelloedd y safonau, sef Gwerthoedd ac Arferion Proffesiynol, Gwybodaeth a Dealltwriaeth ac Addysgu (Cynllunio, Disgwyliadau a Thargedau, Monitro ac Asesu ac Addysgu a Rheoli Dosbarth).

Llwyddo/Methu SAC

Cadarnheir dyfarniadau terfynol gan y Tiwtor Prifysgol a'r Mentor Ysgol gyda chymorth sesiwn arsylwi ar y cyd.

Elfen Asesu - 100%

Traethawd ysgrifenedig (2000 o eiriau)

Enghraifft o'r math o gwestiwn neu dasg y gellid ei defnyddio:

Traethawd unigol yn dangos tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r damcaniaethau sy'n cefnogi Asesu ar gyfer Dysgu a Sgiliau Meddwl, yn cynnwys dadansoddiad beirniadol o'r modd y gwnaethoch chi weithredu un strategaeth Asesu ar gyfer Dysgu NEU un strategaeth Sgiliau Meddwl o'ch Profiad Addysgu Proffesiynol.

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	0%
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	0%
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
Trwy gyfrannu at les cymdeithasol ac economaidd Cymru.	

RHESTR DDARLLEN

Cod y Modwl	ECAD5001C	
Teitl y Modwl	Addysgeg ar Waith 2: Datblygu Asesu ar gyfer Dysgu	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Alexander, R. (2008) <i>Towards Dialogic Teaching: Rethinking Classroom Talk</i> . 4 th edn. York: Dialogos.	☐
Hanfodol	<i>Canllawiau Cynradd</i> (2016) Canolfan Addysg Athrawon De-orllewin Cymru.	☒
Hanfodol	Claxton, G. (2002) <i>Building Learning Power</i> , Bristol: TLO Ltd.	☐
Hanfodol	Claxton, G., Chambers, M., Powell, G., and Lucas, B. (2011) <i>The Learning Powered School</i> , Bristol: TLO Ltd.	☐

Hanfodol	Grigg, R. (2010) <i>Becoming an Outstanding Primary School Teacher</i> , Harlow: Pearson, 2010.	☐
Hanfodol	Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) <i>Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau - Cylchlythyr Rhif: 017/2009</i> , Caerdydd: LICC.	☒
Pellach	Adams, K. (2009) <i>Behaviour for Learning in the Primary School</i> , Exeter: Learning Matters Ltd.	☐
Pellach	Cottrell, S. (2011) <i>Critical Thinking Skills</i> , Basingstoke: Palgrave MacMillan.	☐
Pellach	Davies, S. (2006) <i>The Essential Guide to Teaching</i>	
Pellach	Hattie, J. (2009) <i>Visible Learning</i> , Abingdon: Routledge.	☐
Pellach	Hayes, D. (2008) <i>Foundations of Primary Teaching</i> , 4th edn. London: David Fulton	☐
Pellach	Kyriacou, C. (2007) <i>Essential Teaching Skills</i> , 3rd edn. London: Simon and Schuster.	☐
Pellach	Laevers, F. (ed) (2012) <i>Well-being and Involvement in Care Settings. A Process-oriented Self-evaluation Instrument</i> . Available at: www.kindengezin.be/img/sics-ziko-manual.pdf (18th February).	☒
Pellach	McGuinness, C. (1999) <i>From thinking skills to thinking classrooms: A review and evaluation of approaches for developing pupils' thinking</i> , London: HMSO.	☐
Pellach	McBer Report. (2000) <i>Research into Teacher Effectiveness - A Model of Teacher Effectiveness</i> , London: HMSO.	☐
Pellach	Morgan, N. and Saxton, J. (2002) <i>Asking Better Questions</i> . 2 nd edn. Portland, ME: Stenhouse.	☐
Pellach	Mercer, N. and Littleton K. (2007) <i>Dialogue and the Development of Children's Thinking</i> , Oxon: Routledge.	☐
Pellach	Smidt, S. (2005) <i>Observing, Assessing and Planning for Children in the Early Years</i> , Abingdon: Routledge	☐

CÔD Y MODWL: ECAD5002C
TEITL: Yr Iaith Ar Daith 2
DYDDIAD: 21/03/2017

LEFEL: 5
CREDYDAU: 20

CÔD JACS: Q560

AMCAN(ION)

- I barhau i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion o'r iaith Gymraeg a datblygu eu hyder wrth ei defnyddio ar lafar ac ar bapur.
- I alluogi hyfforddeion i gyflwyno'r Gymraeg yn gywir wrth feithrin eu hyder wrth addysgu yn y sector cynradd.
- I sicrhau bod hyfforddeion yn deall gofynion Cymru / Cymru Ail Iaith o fewn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Cyfathrebu yn Gymraeg ar lafar, darllen ac ysgrifennu yn ôl eu cyraeddiadau ieithyddol gan ddangos datblygiad o'u lefel blaenorol.
- Gwerthuso amryw o fethodolegau addysgu iaith ychwanegol.
- Archwilio'n feirniadol berthynas y cwricwlwm Cymru / Cymru Ail Iaith o fewn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 â'r cwricwlwm cyfan, gan gynnwys y Cwricwlwm Cymru.

CYNNWYS DANGOSOL

- Bydd y modwl hwn yn adeiladu ar fodwl Yr Iaith Ar Daith 1. Parheir i gyflwyno'r Gymraeg yn ôl anghenion ieithyddol yr hyfforddeion er mwyn iddynt wella'u sgiliau darllen, ysgrifennu a llafar. Graddolir y cynnwys ieithyddol yn ôl lefelau'r grwpiau.
- Darperir cyfleoedd pellach i ddefnyddio ystod eang o adnoddau dysgu addas ar gyfer addysgu'r Gymraeg fel ail iaith a, lle bo hynny'n briodol, fel iaith gyntaf.
- Trafodir ymhellach raglenni astudio'r Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer CA2 ynghyd ag agweddau perthnasol o'r Cwricwlwm Cymru.
- Gosodir cyd-destun addysgol i'r gwaith ac ystyri'r y modd y gellir cymhwyso agweddau ar yr hyn a astudiwyd at gyd-destun y dosbarth cynradd. Gwneir hynny trwy drafod hanfodion ystod o ddulliau o hyrwyddo gwaith llafar ac ysgrifenedig plant.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Dosberthir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	36	18%
Dysgu annibynnol	164	82%
Dysgu drwy leoliadau	0	0%
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 – 40%

Aseiniad ysgrifenedig (1600 o eiriau)

Enghraifft o'r math o gwestiwn neu dasg y gellid ei defnyddio:

Ymateb beirniadol l erthygl sy'n rhoi tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o themâu sy'n gysylltiedig ag addysgu'r Gymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg.

Elfen Asesu 2 – 60%

Portffolio Tystiolaeth (cyfwerth â 2400 o eiriau)

Enghraifft o'r math o gwestiwn neu dasg y gellid ei defnyddio:

Cyfes o dasgau portffolio ac adfyfyriad proffesiynol ar y cynnydd a wneir mewn datblygiad iaith bersonol ar gyfer llafaredd, darllen ac ysgrifennu.

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	0%
Gwaith Cwrs	100%
Ymarferol	0%
CYFANSWM	100%

Noder y bydd y modwl yn y pendraw yn arwain yn ogystal at asesiad ym mlwyddyn 3 yn ôl:

- Naill ai'r Dystysgrif Iaith
- Neu lefelau Cynllun Colegau Cymru

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
Trwy gyfrannu at dreftadaeth ddiwylliannol Cymru a chaniatáu i fyfyrwyr gymryd rhan mewn system addysg ddwyieithog.	

RHESTRAU DARLLEN

Cod y Modwl	ECAD5002C	
Teitl y Modwl	Yr Iaith Ar Daith 2	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Baker, C. (2011) <i>Foundations of Bilingual Education and Bilingualism</i> , 5 th Edition. Clevedon: Multilingual Matters.	☐
Hanfodol	CBAC. (1998) <i>Datblygu Cymraeg Pob Dydd yn yr Ysgol Gynradd</i> , Caerdydd: CBAC. http://www.cbac.co.uk/uploads/publications/2991.pdf	☒
Hanfodol	Clement, B. & Lloyd, L. (2011) <i>Bachu Iaith</i> , Caerfyrddin: Canolfan Peniarth	☐
Hanfodol	Estyn. (2013) <i>Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen</i> , Caerdydd: Estyn.	☒
Hanfodol	Llywodraeth Cymru. (2015) <i>Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg Cyfnodau Allweddol 2-4</i> , Llywodraeth Cymru. (2015) <i>Cymraeg ail iaith yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru</i> , Caerdydd	☒
Hanfodol	Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2008) <i>Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen / Welsh Language Development in the Foundation Phase</i> , Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.	☒
Hanfodol	Llywodraeth Cymru. (2015) <i>Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen</i> , Caerdydd	☒
Hanfodol	Welsh Government (2014) <i>Evaluating the Foundation Phase: Key Findings on Welsh Language</i> (WISERD). Cardiff: Crown. http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140717-foundation-phase-welsh-language-en.pdf	☒
Pellach	ap Emlyn, N. (2007) <i>Golwg ar Iaith</i> , Talybont: Y Lolfa.	☐
Pellach	Canolfan Bedwyr. (2008) <i>Llawlyfr Gloywi iaith</i> , Bangor: Canolfan Bedwyr.	☐
Pellach	Clement, B. a Breese, N. (2011) <i>Seren Iaith</i> , Aberystwyth: Atebol.	☐
Pellach	Clement, B. a Breese, N. (2014) <i>Seren Iaith 2</i> , Aberystwyth: Atebol.	☐
Pellach	Cook, V.J. (2008) <i>Second Language Learning and Language Teaching</i> , 4 th Edition. London: Hodder Education.	☐
Pellach	Evans, H.M. (2003) <i>Y Geiriadur Mawr</i> , Llandysul: Gwasg Gomer.	☐
Pellach	Garcia, O. (2009) <i>Bilingual Education in the 21st Century: A Global Perspective</i> . Chichester, Wiley-Blackwell	☐
Pellach	Gruffudd, H. (2002) <i>Cymraeg Da: Ymarferion</i> , Talbont: Y Lolfa	☐
Pellach	Gruffudd, H. (2000) <i>Cymraeg Da</i> , Talybont: Y Lolfa	☐
Pellach	Hopwood, M. (2014) <i>Can Canllaw 1</i> , Caerfyrddin: Canolfan Peniarth	☐
Pellach	Hopwood, M. (2014) <i>Can Canllaw 2</i> , Caerfyrddin: Canolfan Peniarth	☐

Pellach	Hughes, J. E. (2011) <i>Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu</i> , Llandysul: Gwasg Gomer	☐
Pellach	Jones, C. (2013) <i>Welsh Grammar You Really Need to Know</i> . London: Hodder & Stoughton.	☐
Pellach	King, G. (2007) <i>Modern Welsh Dictionary: A guide to the living language</i> , Oxford: OUP.	☐
Pellach	Lightbown P. and Spada N. (2006) <i>How languages are learned</i> . Oxford: Oxford University Press.	☐
Pellach	Richards, J.C. & Rodgers, T.S. (2014) <i>Approaches and Methods in Language Teaching</i> , 3 rd Edition. Cambridge: CUP.	☐
Pellach	Richards, J.C. (2006) <i>Communicative Language Teaching Today</i> . Cambridge: CUP.	☐
Pellach	Thomas, G. (2012) <i>Ymarfer Ysgrifennu Cymraeg</i> , Talybont: Y Lolfa.	☐
Pellach	Welsh Government (2013b) <i>One language for all - Review of Welsh second language at Key Stages 3 and 4</i> . Cardiff: WG. http://gov.wales/docs/dcells/publications/130926-review-of-welsh-second-lan-en.pdf	☒
Pellach	Welsh Government (2016) <i>Review of a project to encourage Welsh-medium teaching in English-medium primary schools</i> . Cardiff http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160310-evaluation-welsh-medium-education-strategy-final-en.pdf	☒

COD Y MODWL: ECAD5003C
TEITL: Hawliau'r Plentyn: Cynhwysiant ac Amrywiaeth
DYDDIAD: 21/03/2017

LEFEL: 5
CREDYDAU: 20

COD JACS: X100 Hyfforddi Athrawon

AMCAN(ION)

- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr ynghylch cefnogi disgyblion unigol i wireddu eu potensial, gan gynnwys archwilio'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cyflawni a chymryd rhan, gan effeithio ar ddysgu.
- Datblygu sgiliau cymhwysedd digidol personol myfyrwyr.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o amrywiol anghenion dysgu ychwanegol plant ar sail persbectifau damcaniaethol a modelau o arfer cynhwysol.
- Gwerthuso'r modd y cefnogir anghenion dysgu unigol gan gynnwys gwahaniaethu a chyfleoedd cyfartal.
- Dangos sgiliau mewn dysgu yn seiliedig ar broblemau, gan gynnwys cydweithio ag eraill.
- Dangos cymhwysedd digidol wrth ymchwilio, coladu a chyflwyno gwybodaeth.

CYNNWYS DANGOSOL

- Cyflwyniad i gyd-destun hanesyddol a gwleidyddol anghenion dysgu arbennig ac ychwanegol a'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i ymarfer, gan gynnwys datblygiadau diweddar a chyfredol yng Nghymru.
- Ymchwiliad manwl i ystod eang o anghenion sy'n effeithio ar ddysgu, e.e. materion corfforol, gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol a diwylliannol. Ymchwilir hefyd i fodelau meddygol a chymdeithasol anabled a'u heffaith ar ymarfer cynhwysol yn y dosbarth.
- Cyflwynir cysyniadau gwahaniaethu, asesu a phrofiadau dysgu wedi'u personoli, gan gynnwys cynllunio sy'n canolbwyntio ar y person a Chynlluniau Datblygu Unigol. Bydd pwyslais ar gefnogi pob disgybl i wireddu'u potensial yn llawn trwy hyrwyddo mynediad a chyfle cyfartal i ddysgu yn y dosbarth.
- Bydd yn ofynnol i'r hyfforddeion drefnu ymweliad arsylwi ag uned / ysgol / dosbarth arbennig sydd â chyfran uchel o ddisgyblion ADY i gael profiad o arfer rhagorol mewn darpariaeth arbenigol.
- Bydd sesiynau TG yn trafod: cynllunio, cadw, adalw a dadansoddi gwybodaeth: defnyddio meddalwedd TGCh i lunio holiaduron i gefnogi ymchwil i themâu a godir yn y modwl.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

E.e. Bydd darlithoedd yn cyflwyno'r myfyrwyr i'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r arferion. Bydd tiwtorialau a seminarau yn cyflwyno enghreifftiau ymarferol a ddefnyddir i gefnogi cymhwyso, trafod a gwerthuso'n feirniadol y technegau a ddysgwyd. Yn ogystal, defnyddir astudiaethau achos i ddatblygu dealltwriaeth o'r technegau a'u cymhwyso.

Dyrennir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	40	20%
Dysgu annibynnol	160	80%
Dysgu drwy leoliadau	0	0%
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 - 100%

Aseiniad ysgrifenedig – prosiect ymchwil ar raddfa fach a dadansoddiad (cyfwerth â 4000 o eiriau).

Enghraifft o'r math o gwestiwn neu dasg y gellid ei defnyddio:

Ar sail tystiolaeth o ystod eang o ddarllen cefndirol a chan ddefnyddio data a gasglwyd o holiadur grŵp a ddosbarthwyd i ymarferwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn addysg gynradd, trafodwch yn feirniadol sut mae un o'r pynciau ADY canlynol yn effeithio ar ddysgu ac addysgu:

- Tlodi
- Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD)
- Ffoaduriaid
- Nam synhwyrdd

D.S. Yn ogystal yn yr aseiniad hwn bydd angen i chi ddangos tystiolaeth o sgiliau TGCh a ddatblygwyd o fewn y modwl trwy ddefnyddio cynrychioliad graffigol i gyflwyno rhai o ganfyddiadau eich holiaduron.

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	0%
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	0%
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o'r egwyddorion a drafodir yn y modwl hwn yn paratoui hyfforddeion ar gyfer elfennau addysgu a bugeiliol y proffesiwn y maent yn ymuno ag ef. Bydd gwybodaeth a sgiliau a ddatblygir yn y modwl hwn yn rhoi persbectif mwy cynhwysol iddynt o'r cymunedau amrywiol y maent yn byw ac yn addysgu ynddynt a'r cyd-destun ehangach.	

RHESTR DDARLLEN

Cod y Modwl	ECAD5003C	
Teitl y Modwl	Hawliau'r Plentyn: Cynhwysiant ac Amrywiaeth	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. (2016) <i>Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru.	☒
Hanfodol	Glazzard, J., Hughes, A., Netherwood, A., Neve, L., & Stokoe, J. (2010) <i>Teaching Primary Special Educational Needs</i> [Online], Exeter: Learning Matters Ltd.	☒
Hanfodol	Llywodraeth Cymru, (2015) <i>Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru.	☒
Hanfodol	Peer, L. & Reid, G. (eds.) (2016) <i>Special Educational Needs – A Guide for Inclusive Practice</i> , (2 nd ed.) London: Sage.	☐
Pellach	Adran Addysg a Sgiliau. (2014) <i>Ailysgrifennu'r dyfodol</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru.	☒
Pellach	<i>British Journal of Special Education</i> [e-gylchgrawn]	☒
Pellach	Donaldson, G. (2015) <i>Dyfodol Llwyddiannus</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru.	☒
Pellach	Farrell, M. (2012) <i>Educating Special Children</i> . 2 nd edn. Oxon: Routledge.	☒
Pellach	Frederickson, N. & Cline, T. (2009) <i>Special Educational Needs, Inclusion and Diversity</i> , Maidenhead: Open University Press.	☒
Pellach	Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2002) <i>Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru</i> , Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.	☒
Pellach	Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2010) <i>Cwricwlwm I bob dysgwr</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.	☒
Pellach	Llywodraeth Cymru. (2013) <i>Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru.	☒
Pellach	Spooner, W. (2011) <i>The SEN Handbook for Trainee Teachers, NQTs and Teaching Assistants</i> . 2 nd edn. [Online], Oxon: Routledge.	☐
Pellach	<i>Support for Learning</i> [cylchgrawn arlein]	☒

COD Y MODWL: ECAD5004C
TEITL: Addysgu Iaith a Mathemateg
DYDDIAD: 21/03/2017

LEFEL: 5
CREDYDAU: 20

COD JACS: X100 Hyfforddi Athrawon

AMCAN(ION)

- Darparu cyfleoedd sy'n ehangu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ar gyfer addysgu a dysgu iaith a Mathemateg yng nghwricwlwm yr ysgol gynradd.
- Darparu trosolwg beirniadol o ddisgwyliadau yn gysylltiedig ag oedran ac ymagweddau addysgegol ar gyfer dysgu iaith a Mathemateg.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Amlygu gwybodaeth gadarn o ddisgwyliadau cenedlaethol yn gysylltiedig ag oedran mewn iaith a mathemateg.
- Arddangos dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r modd mae plant yn dysgu sgiliau iaith a mathemateg effeithiol.
- Arddangos gallu i wneud dewisiadau addysgegol sy'n sicrhau dysgu ac addysgu da.

CYNNWYS DANGOSOL

Mathemateg

- Gwybodaeth a dealltwriaeth: archwiliad o'r gofynion cenedlaethol ar gyfer addysgu mathemateg a rhifedd; dilyniant sgiliau yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh); defnyddio'r FfLIRh.
- Yr egwyddorion ar gyfer datblygu dealltwriaeth fathemategol a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.
- Addysgu hyder a hyblygrwydd o ran rhif: archwilio addysgeg i sicrhau bod disgyblion yn meistroli sgiliau rhif sylfaenol ac yn datblygu effeithlonrwydd a hyblygrwydd.
- Yr athro sy'n gwneud cysylltiadau mewn mathemateg; sicrhau bod mathemateg yn cael ei gymhwyso yn y 'byd go iawn'.
- Egwyddorion ac ymarferion i ddatblygu sgiliau rhesymu rhifiadol.

Iaith

- Gwybodaeth a dealltwriaeth: archwiliad o'r gofynion cenedlaethol ar gyfer addysgu sgiliau iaith a llythrennedd; dynodi dilyniant sgiliau mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn y FfLIRh; dealltwriaeth o sut i ddefnyddio'r FfLIRh fel arf ar gyfer cynllunio.
- Llafaredd o safon uchel; ystyriaeth o'r man dysgu ffisegol ac addysgegol mewn perthynas â'r ystafell ddosbarth ymddiddanol.

- Damcaniaethau ac egwyddorion allweddol: archwiliad beirniadol o'r modelau cysyniadol ar gyfer addysgu darllen, yn cynnwys yr olwg syml ar ddarllen (adnabod geiriau a deall iaith).
- Addysgu darllen: archwiliad o'r gwahanol fathau o addysgeg ar gyfer addysgu darllen, yn cynnwys ffoneg synthetig systematig, darllen ar y cyd, darllen dan arweiniad a darllen annibynnol.
- Damcaniaethau ac egwyddorion allweddol: archwiliad beirniadol o'r modelau cysyniadol ar gyfer addysgu ysgrifennu, yn cynnwys trawsgrifio a chyfansoddi a deall camau'r dechreuwr, yr egin ysgrifennwr a'r ysgrifennwr arbenigol.
- Addysgu ysgrifennu: archwiliad o'r gwahanol fathau o addysgeg ar gyfer addysgu ysgrifennu yn cynnwys mannau ysgrifennu cynnar, siarad er mwyn ysgrifennu, ysgrifennu ar y cyd a'r defnydd o TGCh.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

E.e. Bydd darlithoedd yn cyflwyno'r myfyrwyr i'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r arferion. Bydd tiwtorialau a seminarau yn cyflwyno enghreifftiau ymarferol a ddefnyddir i gefnogi cymhwyso, trafod a gwerthuso'n feirniadol y technegau a ddysgwyd. Yn ogystal, defnyddir astudiaethau achos i ddatblygu dealltwriaeth o'r technegau a'u cymhwyso.

Dyrennir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	40	20%
Dysgu annibynnol	160	80%
Dysgu drwy leoliadau	0	0%
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 - 100%

Aseiniad Ysgrifenedig (cyfwerth â 5000 o eiriau)

Enghraifft o'r math o gwestiwn neu dasg y gellid ei defnyddio:

Beth sy'n fy helpu i ddysgu iaith a mathemateg? : Dadansoddiad o ddysgu gan blentyn mewn mathemateg ac iaith gydag argymhellion ar gyfer sicrhau cynnydd.

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	0%
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	0%
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
Os ydy, rhwch fanylion yn gryno (dim mwy na 100 o eiriau):	
Gan fod y modwl hwn yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu iaith a mathemateg yn effeithiol yn yr ysgol gynradd ac yn gofyn i fyfyrwyr ddadansoddi dysgu ac addysgu	

iaith a mathemateg, dylai gyfrannu at addysg plant ifanc er eu lles economaidd a chymdeithasol.

RHESTR DDARLLEN

Cod y Modwl	ECAD5004C	
Teitl y Modwl	Addysgu iaith a Mathemateg	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Clark, A. and Moss, P. (2011) <i>Listening to Young Children: The Mosaic Approach</i> (2 nd ed.) National Children's Bureau	☒
Hanfodol	Graham, J. and Kelly, A. (2007, third edition) <i>Reading Under Control: Teaching Reading in the Primary School</i>	☐
Hanfodol	Haylock, D. and Cockburn, A. (2013) <i>Understanding Mathematics for Young Children</i> . London: Sage	☐
Hanfodol	Nottingham, J. (2013) <i>Encouraging Learning</i> Oxon:	☒
Pellach	Hanson, A. (ed.) (2015) <i>Children's Errors in Mathematics: Understanding Common Misconceptions in the Primary School</i> , London: Sage	☐
Pellach	Askew, M. (2011) <i>Transforming Primary Mathematics</i> Routledge: Oxon	☐
Pellach	Pound, L. and Lee, T. (2010) <i>Teaching Mathematics Creatively</i> , Routledge: Oxon	☐
Pellach	Lewis, M. and Ellis, S. (2006) <i>Phonics: Practice, Research and Policy</i> Paul Chapman Publishing	☐
Pellach	Cotton, T. (2013) <i>Understanding and Teaching Primary Mathematics</i> , Routledge: Oxon	☐
Pellach	Goodwin, P. (2010) <i>The Literate Classroom</i> , London: David Fulton	☐
Pellach	McAteer, M. (ed.) (2013) <i>Improving Primary Mathematics Teaching and Learning</i> Berkshire: Open University Press	☒

COD Y MODWL: ECAD5005C
TEITL: Y Celfyddydau Gweledol a Mynegiannol yng Nghymru
DYDDIAD: 21/03/2017

LEFEL: 5
CREDYDAU: 20

COD JACS: X100 Hyfforddi Athrawon

AMCAN(ION)

- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion ynghylch lluosogrwydd ac amrywiaeth Cymru trwy'r celfyddydau gweledol a mynegiannol.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Nodi cyfraniad nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru i'r hyn a ddysga disgyblion a'u gwerthfawrogiad o'r celfyddydau creadigol.
- Cynllunio'n effeithiol ar gyfer addysgu celf, dylunio a thechnoleg, cerddoriaeth ac addysg gorfforol yng nghyd-destun y Cwricwlwm Cymreig.
- Gwerthuso'r cyfraniad a wnaed gan unigolion i'n dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn y gorffennol a'r presennol.

CYNNWYS DANGOSOL

- Dealltwriaeth glir a phriodol o gynnwys a phwmpas YCC wrth addysgu'r Celfyddydau Mynegiannol.
- Amrywiaeth o weithgareddau / syniadau / gwersi ymarferol sy'n hyrwyddo creadigrwydd trwy'r Celfyddydau Mynegiannol.
- Gallu'r myfyriwr i adfyfrio'n feirniadol gan ddefnyddio enghreifftiau o'u Profiad Addysgu Proffesiynol ac integreiddio theori ac arfer.
- Deialog feirniadol yn trafod gwerth a phwmpas y Celfyddydau Mynegiannol a'r Cwricwlwm Cymreig o fewn Ysgolion Cynradd.
- Gwybodaeth am y rhai sydd wedi cyfrannu at y celfyddydau yng Nghymru er mwyn ysbrydoli a chyfoethogi'r addysgu o fewn Ysgolion Cynradd.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

E.e. Bydd darlithoedd yn cyflwyno'r myfyriwr i'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r arferion. Bydd tiwtorialau a seminarau yn cyflwyno enghreifftiau ymarferol a ddefnyddir i gefnogi cymhwyso, trafod a gwerthuso'n feirniadol y technegau a ddysgwyd. Yn ogystal, defnyddir astudiaethau achos i ddatblygu dealltwriaeth o'r technegau a'u cymhwyso.

Dyrennir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	40	20%
Dysgu annibynnol	160	80%
Dysgu drwy leoliadau	0	0%
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 - 100%

Traethawd (4000 o eiriau)

Enghraifft o'r math o gwestiwn neu dasg y gellid ei defnyddio:

Gan ddefnyddio arteffact diwylliannol Cymraeg yn sbardun (cân, cerdd, gwrthrych, paentiad, ffotograff), ewch ati i greu adnodd ar ffurf traethawd sy'n addas i athrawon ei ddefnyddio i ysbrydoli dysgu gan blant. Seiliwch eich gwaith ar thema benodol (gan anelu'r gwaith at blant 3-7 oed neu 7-11 oed).

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	0%
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	0%
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
Trwy hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol Cymru a helpu plant i adnabod eu hunaniaeth yng Nghymru'r 21ain ganrif.	

RHESTR DDARLLEN

Cod y Modwl	ECAD5005C	
Teitl y Modwl	Y Celfyddydau Gweledol a Mynegiannol yng Nghymru	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Bloomfield, A. & Childs, J. (2000) <i>Teaching Integrated Arts in the Primary School</i> , London: David Fulton.	☐
Hanfodol	Donaldson, G. (2015) <i>Dyfodol Llwyddiannus</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf	☒
Hanfodol	Estyn. (2001) <i>Y Cwricwlwm Cymreig: dimensiwn Cymreig y cwricwlwm yng Nghymru: arfer dda mewn addysgu a dysgu</i> , Caerdydd: Estyn.	☒
Hanfodol	QCAA. (2003) <i>Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig</i> , Caerdydd: QCAA.	☒
Pellach	Baldwin, P and Fleming, K. (2002) <i>Teaching Literacy through Drama: Creative Approaches</i> , London: Taylor & Francis.	☐
Pellach	Edwards, L. (2009) <i>The Creative Arts: A Process Approach for Teachers and Children</i> . 5 th edn. London: Merrill Publishers.	☐
Pellach	Fleming, K. (2007) <i>Teaching Literacy through Drama: Creative Approaches</i> , London: Taylor & Francis.	☐
Pellach	Grigg, R. (2010) <i>Becoming an Outstanding Primary</i>	☐

	<i>School Teacher</i> , Harlow: Pearson.	
Pellach	Jenkins, G. (1975) <i>Welsh Crafts and Craftsmen</i> , Cardiff: University of Wales Press.	☐
Pellach	Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2008) <i>Datblygiad Creadigol: chwarae, dysgu, tyfu</i> , Caerdydd: LICC.	☒
Pellach	Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2008) <i>Datblygiad Corfforol</i> , Caerdydd: LICC.	☒
Pellach	Lord, P. (2004) <i>Visual Culture of Wales</i> , Cardiff: University of Wales Press, 3 vols.	☐
Pellach	Mills, J. (2009) <i>Music in the Primary School</i> , 3rd Edition, Oxford: OUP.	☐
Pellach	Schiller, W, (2000) <i>Thinking through the Arts</i> , London: Routledge.	☐
Pellach	Wooster, R. (2012) <i>Contemporary Theatre in Education</i> , London: Intellect Publishing.	☐

COD Y MODWL: ECAD5006C
TEITL: Dysgu Seiliedig ar Ymholi
DYDDIAD: 21/03/2017

LEFEL: 5
CREDYDAU: 20

COD JACS: X100 Hyfforddi Athrawon

AMCAN(ION)

- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth feirniadol myfyrwyr ynghylch modelau dysgu seiliedig ar ymholi.
- Archwilio gwahanol sgiliau ymholi a'r modd y gellir hyrwyddo'r rhain yn yr ystod oedran 3-11.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Ddiffinio ac esbonio potensial dysgu seiliedig ar ymholi yn yr ysgol gynradd.
- Nodi'n feirniadol sgiliau ymholi penodol a'r modd y gellir datblygu'r rhain mewn ystod o gyd-destunau daearyddol, hanesyddol, gwyddonol a chrefyddol trwy'r ystod oedran 3-11.
- Dadansoddi'r gwahanol fodelau a dulliau sy'n seiliedig ar ymholi.

CYNNWYS DANGOSOL

- Trosolwg o ofynion cwricwlwm a chanllawiau anstatudol yn ymwneud, er enghraifft, ag ymholi gwyddonol, ymchwiliadau hanesyddol a chrefyddol a gwaith maes daearyddol.
- Natur a chwmpas Dysgu Seiliedig ar Ymholi (DSY) yn yr ysgol gynradd. Cymharu modelau dysgu seiliedig ar ymholi, er enghraifft y prosiect Living Difference mewn Addysg Grefyddol (Erricker, 2010), Prosiect Hanes Cynradd Nuffield a'r dulliau ar gyfer ymholi gwyddonol a hyrwyddir gan AKSIS (1998) a'r prosiect "It's Not Fair" (2012).
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr ynghylch sgiliau ymholi wrth arsylwi, casglu, cwestiynu, dadansoddi ffynonellau, gwerthuso materion a chyfosod gwybodaeth, a archwilir trwy ystod o gyd-destunau pynciol a thematig, e.e. defnyddio Tŷ Newton, Parc Dinefwr. Bydd y darlithoedd yn ystyried pob un o'r sgiliau hyn mewn cyd-destunau perthnasol.
- Hyrwyddo gwybodaeth sy'n benodol i bynciau a chysyniadau mewn cyd-destunau cwricwlwm perthnasol, e.e. syniadau gwyddonol sy'n ymwneud â 'sut mae pethau'n gweithio', 'y ddaear gynaliadwy' a 'rhyngddibyniaeth organebau'.
- Ymateb i syniadau plant wrth gynllunio a datblygu ac adfyfrio ar drywydd ymholi.
- Datblygu 'diwylliant archwilio' yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2.

- Datblygu sgiliau o ran dod o hyd i wybodaeth a'i dadansoddi trwy ddefnyddio llyfrgelloedd, archifau, orielau, amgueddfeydd, canolfannau adnoddau a chadwrfeydd ar-lein.
- Dulliau seiliedig ar ymholi cymharol yn *Curriculum for Excellence* yr Alban a Chwricwlwm Gogledd Iwerddon ac yng nghyd-destun adolygiad Donaldson a datblygu'r cwricwlwm yng Nghymru.
- Ymholi ffurfiannol a chrynodol: 'mesur' a chynnig adborth ar DSY, e.e. ymateb i gamsyniadau gwyddonol, ystrydebau a rhagfarn y plant.
- Dysgu cydweithredol: datblygu sgiliau gwaith tîm. Bydd disgwyl i fyfyrwyr wneud cysylltiadau rhwng DSY a dulliau dysgu sy'n seiliedig ar broblemau.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Bydd darlithoedd yn cyflwyno'r myfyrwyr i'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r arferion. Bydd tiwtorialau hefyd yn cyflwyno enghreifftiau ymarferol a ddefnyddir i gefnogi cymhwyso, trafod a gwerthuso'n feirniadol y technegau a ddysgwyd. Yn ogystal, defnyddir astudiaethau achos i ddatblygu dealltwriaeth o'r technegau a'u cymhwyso.

Dyrennir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	40	20%
Dysgu annibynnol	160	80%
Dysgu drwy leoliadau	0	0%
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 - 100%

Aseiniad DSB (5000 o eiriau)

Enghraifft o'r math o gwestiwn neu dasg y gellid ei defnyddio:

Ymateb i senario(s) DSB e.e. rydych yn weithwyr sy'n gweithio i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol. Mae'n wynebu her fawr o ran denu ymwelwyr, yn enwedig plant yn y Cyfnod Sylfaen. Rhowch adroddiad amlinellol o'r modd y byddech yn mynd i'r afael â hyn.

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	0%
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	0%
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
Os ydy, rhowch fanylion yn gryno (dim mwy na 100 o eiriau):	
Ceir ymgysylltu clir â chyfleoedd ADC trwy gyd-destunau DSY y canolbwyntir arnynt mewn themâu yn ymwneud â gwyddoniaeth a daearyddiaeth, er enghraifft, fel y	

maent yn berthnasol i ymweliad addysgol y modwl â lleoliad a luniwyd i ysgogi ymgysylltu â chyd-destunau DSY a strategaethau dysgu ac addysgu arfer gorau.

RHESTR DDARLLEN

Cod y Modwl	ECAD5006C	
Teitl y Modwl	Dysgu Seiliedig ar Ymholi	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Grigg, R. & Hughes, S. (2012) <i>Teaching Primary Humanities</i> , Harlow: Pearson.	☐
Hanfodol	Harlen, W. & Qualter, A. (2014) <i>The teaching of science in primary schools</i> (6 th edn.), London: David Fulton.	☒
Hanfodol	Hoodless, P. et al. (2009) <i>Teaching Humanities in Primary Schools (Achieving QTS)</i> , Exeter: Learning Matters.	☒
Hanfodol	Lakin, L. (2013) <i>Developing Independent Learning in Science</i> , Maidenhead: Open University Press.	☒
Hanfodol	Loxley P. et al. (2013) <i>Teaching Primary Science. Promoting Enjoyment and Developing Understanding</i> (2 nd edn.), London: Pearson Education.	☒
Hanfodol	Pickford, T., Garner, W. & Jackson, E. (2013) <i>Primary Humanities: Learning through Enquiry</i> , London: Sage Publications.	☐
Hanfodol	Turner, J. et al. (2011) <i>It's not fair – or is it? A guide to developing children's ideas through primary science enquiry</i> , Sandbach: Millgate House Education.	☐
Pellach	Allen, M. (2010) <i>Misconceptions in Primary Science</i> , Maidenhead: Open University Press.	☐
Pellach	Allen, M. (2016) <i>The best ways to teach primary science: research into practice : using learning progressions to help become a more effective teacher</i> , Maidenhead: Open University Press.	☐
Pellach	Erricker, C., Lowndes, J. & Bellchambers, E. (2011) <i>Primary Religious Education – A New Approach</i> , London: David Fulton.	☐
Pellach	Roden, J. and Archer, J. (2014) <i>Primary Science for Trainee Teachers</i> , London: Learning Matters.	☐
Pellach	Scoffham, S. (2010) <i>Primary Geography Handbook</i> , Sheffield: Geographical Association.	☐
Pellach	Turner-Bisset, R. (2005) <i>Creative Teaching: History in the Primary Classroom</i> , London: David Fulton.	☐
Pellach	Weavers, G. (2008) <i>Made You Look – Made You Think – Made You Talk</i> , Sandbach: Millgate House Educational.	☐
Pellach	Weavers, G. (2012) <i>Dewch i Edrych, Dewch i Feddwl, Dewch i Siarad</i> , Sandbach: Millgate House Education.	☐